EUROPE DIRECT

Cylchlythyr
Haf 2007

wrexham COUNCIL CYNGOR wrecsam

Cynhwysiad:

Tudalen 1 Newyddion

Tudalen 2: Cymdogion Newydd

Tudalen 3: Pen-blwydd Hapus Ewrop

Tudalen 4: Canolbwynt ar y Sefydliad

Dathlu Cysylltiadau Gefeillio Wrecsam

Digwyddiadau i Ddod

Croeso i Ewrop Uniongyrchol.

Rydym yn wasanaeth gwybodaeth ar gyfer popeth Ewropeaidd. O ymholiadau bach ynghylch pa arian sy'n cael ei ddefnyddio yng ngwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd (UE) i wybodaeth drylwyr ar bolisïau'r UE, rydym yma i helpu. Mae digonedd o wybodaeth ar gael i chi, llawer ohono ar ffurf llyfrynnau y gallwch eu cymryd. Rydym bob amser yn falch o helpu ac, felly, os na allwch gael hyd i rywbeth, cofiwch ofyn.

Gallwch gysylltu â ni yn Llyfrgell Wrecsam mewn amrywiaeth o ffyrdd; dros y ffôn, trwy e-bost, ar we neu gallwch alw heibio wrth gwrs. Fe welwch ein manylion cysylltu ar waelod y dudalen hon.

Galwadau ffôn symudol rhatach pan fyddwch dramor
Newyddion da i filiynau o deithwyr Ewrop: yn fuan bydd yn llawer rhatach i ddefnyddio eich ffôn symudol dramor. Efallai eich bod wedi clywed bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi mabwysiadu rheoliad newydd yn ddiweddar i ostwng pris defnyddio'ch ffôn symudol dramor yn Ewrop. Gyda'r Eurotariff newydd, bydd teithwyr yn gallu gwneud galwadau tra byddant dramor am ddim mwy na 49 eurocent (tua 33c) a derbyn galwadau am ddim mwy na 24 eurocent (tuag 16c), heb gynnwys TAW.

I gael rhagor o wybodaeth cymrwch daflen "Galwadau symudol rhatach dramor, 10 awgrym" yng Nghanolfan Ewrop Uniongyrchol yn Llyfrgell Wrecsam, neu trwy gysylltu â ni i gael rhagor o fanylion.

Cyhoeddiadau Am Ddim Ar Gael
Mae gennym amrywiaeth eang o gyhoeddiadau am ddim ar bopeth Ewropeaidd, o wybod am eich hawliau i awgrymiadau defnyddiol ar deithio mewn gwledydd eraill.

Teithio yn Ewrop
Mae'r daflen hon yn dweud wrthych ba ddogfennau sydd eu hangen i deithio, yr arian sy'n cael ei ddefnyddio, faint mae'n costio i dynnu arian, cyfyngiadau ar siopa, dilysrwydd trwyddedau gyrru, yswiriant gofal iechyd, mynd ag anifeiliaid anwes gyda chi, defnyddio eich ffôn symudol a llawer mwy.

Sut mae'r UE yn Gweithio
Arweiniad defnyddiol ar ddod i adnabod yr UE, gall ateb cwestiynau sydd gennych am y cytundebau Ewropeaidd a sefydliadau'r UE. Mae'r arweiniad hwn yn cwmpasu sut ddaeth yr UE i fodolaeth, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r hyn mae pob un o'r sefydliadau'n ei wneud. Felly os ydych erioed wedi meddwl yn union beth yw'r Comisiwn Ewropeaidd, beth mae'n ei wneud a sut mae hynny'n effeithio arnom mae'r llyfryn hwn yn fan cychwyn defnyddiol iawn.

Gêm Fflagiau
Mae'r gêm cof paru fflagiau ar gael am ddim bellach yn Ewrop Uniongyrchol.

Mae'r gêm yn cynnwys pâr o fflagiau pob un o 27 aelod-wlad yr UE a'r 3 gwlad ymgeisiol, gan wneud cyfanswm o 60 cerdyn. Nod y gêm yw cael y nifer mwyaf o barau fflagiau. Mae'n ddelfrydol i chwarae naill ai ar eich pen eich hun neu gyda chyfeillion, mae'n arbennig o ddefnyddiol i helpu dysgu fflagiau gwledydd eraill a gwella eich cof!

I gael eich copi AM DDIM o'r Gêm Cof Fflagiau, cysylltwch â ni neu alw heibio i gasglu un.

Cysylltwch â ni:
Ewrop Uniongyrchol, Llyfrgell Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam, LL11 1AU
Ffôn: 01978 292090 E-bost: europedirect@wrecsam.gov.uk
www.wrecsam.gov.uk/europedirect

Cymdogion Newydd

Ym mis Ionawr 2007 ymunodd dwy wlad arall â'r UE ar ôl cael cyrraedd yr holl feini prawf ymuno. Bydd gwledydd sydd am ymuno â'r UE yn cyflwyno cais i Gyngor Ewrop er mwyn i'r Comisiwn allu asesu gallu'r ymgeiswyr i gyflawni amodau aelodaeth, fel gwerthoedd sefydlu sylfaenol yr UE, a ddatganwyd yn y Cytundeb ar Undeb Ewropeaidd. Os yw'r comisiwn yn ymateb yn gadarnhaol i'r cais bydd yn mynd i gyd-drafodaethau gyda'r wlad i weithio drwy'r holl bwyntiau cysylltiedig â dod yn aelod. Bydd cynnydd yn cael ei arolygu'n fanwl ac, unwaith y bydd holl aelod-wledydd presennol yn fodlon ar y cynnydd, daw'r cyd-drafodaethau i ben a'r holl delerau'n cael eu hysgrifennu mewn cytundeb derbyn. Yna rhaid i'r Comisiwn gytuno â'r aelodaeth newydd a rhaid i'r Senedd dderbyn hynny.

Ffeithiau a Ffigurau ar y gwledydd newydd

Bwlgaria

Prifddinas: Sofia
Arwynebedd llawn: 111 000 cilomedr²
Poblogaeth: 7.7 miliwn
Arian cyfredol: Lev



Mae Bwlgaria yn y Balcanau ac mae'n cynnwys gwastadeddau Donwy ac Arfordir y Môr Du.

Mae'n un o'r gwladwriaethau hynaf yn Ewrop a gafodd ei sefydlu yn y flwyddyn 681.

Bwyd enwocaf Bwlgaria yw iogwrt.

Prif allforion Bwlgaria yw cynhyrchion diwydiannol ysgafn, bwydydd a gwinoedd.

Mae Bwlgaria'n enwog am ei cherddoriaeth werin. Recordiwyd un o ganeuon gwerin Bwlgaria ar Record Euraid Voyager, a anfonwyd i'r gofod pell gan NASA.

Mae Bwlgariaid enwog yn cynnwys yr athronydd Julia Kristeva, Elias Canetti, enillydd Gwobr Nobel am lenyddiaeth yn 1981, a Christo Javachev (“Christo”), crëwr llawer o gerfluniau awyr agored anghonfensiynol.

Rwmania

Prifddinas: Bucharest
Arwynebedd llawn: 238 000 cilomedr²
Poblogaeth: 21.6 miliwn
Arian cyfredol: Leu



Mae Rwmania, yn ne-ddwyrain Ewrop, yn fynyddig yn y gogledd a dyffryn eang Donwy yn brif nodwedd y de. Yno mae'r afon yn ffurfio delta wrth iddi ddynesu at y Môr Du, sy'n warchodfa bywyd gwyllt i adar brodor ac ymfudol di-rif.

Mae gan Rwmania gryn adnoddau naturiol fel olew, nwy naturiol, glo, haearn, copr a bocsit. Gweithio metelau, petrocemegion a pheirianneg fecanyddol yw'r prif ddiwydiannau.

Mae bwydydd arbennig Romania'n cynnwys pelenni cig griliedig, stiw porc gyda garlleg a nionod a thoesenni gyda hufen a chaws.

Seiliwyd chwedl iasol Dracula ar y Cownt Vlad Dracul o Rwmania yn y 15fed ganrif gyda mab oedd yn enwog am wanu ei elynion â stanc ar ôl eu dal wrth ryfela.

Mae enwogion Rwmania'n cynnwys yr ysgrifennwr Eugene Ionesco, y fabolgampwriag Nadia Comaneci a'r cyfansoddwr George Enesco.

Pen-blwydd Hapus Ewrop

Mae Ewrop yn 50 oed eleni ac mae'n adeg dda i gofio pam a sut y daeth yr Undeb Ewropeaidd i fodolaeth.

Mae'r 50fed pen-blwydd yn cofio llofnodi Cytundeb Rhufain yn 1957. Fodd bynnag, nid yno mae'r stori'n dechrau gan fod y sylfeini wedi cael eu gosod ychydig flynyddoedd cyn hynny.

Pam Undeb Ewropeaidd?
Ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd roedd Ewrop yn adfeilion ac roedd grym yr Undeb Sofietaidd ac UDA yn tyfu, fel yr oedd y gystadleuaeth rhyngddynt. Daeth llawer o arweinwyr gwledydd y gorllewin i gasgliad mai'r ffordd orau o sicrhau heddwch ymysg gwledydd Ewrop oedd eu rhwymo wrth ei gilydd yn wleidyddol ac economaidd. Byddai hyn yn annog y gwledydd i gydweithredu, oedd yn cael ei weld fel y ffordd orau o atal rhyfel arall.

Yn 1950 cynigiodd Robert Schumann, gweinidog tramor Ffrainc, bod glo a dur o'r Almaen, Ffrainc a gwledydd eraill yn cael eu cronni. Ar y pryd roedd y diwydiannau hyn yn sail grym milwrol ac roedd dewis gwledydd a fu'n elynion yn y rhyfel yn eithaf symbolaidd. Dyma sylfeini'r hyn sydd gennym heddiw.

Llinell Amser

1950 Datganiad Schumann yn argymell sefydlu Cymuned Glo a Dur Ewrop (ECSC) rhwng y chwe gwlad sefydlu sef Gwlad Belg, Ffrainc, Yr Almaen, Yr Eidal, Lwcsembwrg a'r Iseldiroedd. Ffurfiolwyd hyn gyda Chytundeb Paris yn 1951, a ffurfiodd farchnad gyffredin ar gyfer glo a dur rhwng y chwe gwlad.

1957 Sefydlwyd Cymuned Economaidd Ewrop trwy lofnodi Cytundeb Rhufain. Ffurfiodd hyn farchnad gyffredin rhwng y chwe gwlad ar gyfer holl nwyddau gan arwain at ddiddymu holl dollau rhyngddynt yn y 1960au.

1973 Ymestyniad cyntaf yr UE. Yn y flwyddyn hon, ar Ionawr 1af, ymunodd tair gwlad arall â chwe aelod gwreiddiol y farchnad gyffredin. Y gwledydd hynny oedd y DU, Iwerddon a Denmarc.

1979 Cynhaliwyd etholiadau cyntaf Senedd Ewrop. Dyma'r tro cyntaf i'r cyhoedd ethol aelodau'r Senedd. Cyn hynny, dewiswyd aelodau gan eu gwledydd. Caiff Etholiadau i'r Senedd eu cynnal bob pum mlynedd.

1981 Gwlad Groeg yn ymuno â'r Undeb.

1986 Portiwgal a Sbaen yn ymuno.

1993 Daeth y Cytundeb ar yr Undeb Ewropeaidd, hefyd yn cael ei alw'n Gytundeb Maastricht, i rym. Sefydlodd hwn y farchnad sengl a symudiad rhydd pobl, nwyddau, gwasanaethau ac arian.

1995 Rhagor o wledydd yn ymuno â'r UE gan fynd â chyfanswm yr aelod-wledydd i bymtheg. Y gwledydd newydd oedd Awstria, Y Ffindir a Sweden.

2002 Yr Ewro'n dod yn arian swyddogol 12 gwlad.

2004 Ymestyniad mwyaf yr Undeb Ewropeaidd yn digwydd ar Fai 1af pan ymunodd 10 o wledydd. Y rhain oedd Ynys Cyprus, Y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Latfia, Malta, Hwngari, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofenia a Slofacia.

2007 Bwlgaria a Rwmania'n ymuno â'r UE gan ddod â chyfanswm yr aelodau i 27.

Canolbwynt ar y Sefydliad

Y gyntaf o erthyglau rheolaidd yn taro cipolwg ar sefydliadau'r UE. Y tro hwn canolbwyntiwn ar Senedd Ewrop.

Senedd Ewrop

Mae'r Senedd hon yn debyg i senedd y DU trwy fod yr Aelodau Seneddol (ASE) yn cael eu hethol yn uniongyrchol gan y cyhoedd pob 5 mlynedd. Fodd bynnag, dim ond un siambr sydd yn hytrach na'r ddwy yn y DU (Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi). Yn gweithio mewn 23 o ieithoedd mae'r Aelodau'n eistedd mewn blociau gwleidyddol, yn hytrach na blociau cenedlaethol. Mae 785 ASE, 78 ohonynt yn cynrychioli'r DU, i gyd yn cael eu hethol trwy gynrychiolaeth gyfrannol. Bydd yr etholiadau nesaf yn cael eu cynnal ym mis Mehefin 2009. I gael rhagor o wybodaeth am sut y caiff ASE eu hethol, neu am waith y Senedd, cofiwch gysylltu â ni.

Mae ganddi dri chartref, Lwcsembwrg lle mae'r swyddfeydd gweinyddol, Strasbwrg lle mae adeilad y senedd a'r fan lle caiff y senedd ei chynnal, a Brwsel lle bydd cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu cynnal.

Mae gan y Senedd dair brif swyddogaeth; llunio deddfau, goruchwylio sefydliadau Ewropeaidd eraill yn ddemocrataidd, a phenderfynu cyllideb yr UE.

Dathlu Cysylltiadau Gefeillio Wrecsam

Dathlwyd cysylltiadau Wrecsam â'i dwy efeilldref yng Ngwlad Pwyl a'r Almaen mewn digwyddiad a gynhaliodd Ewrop Uniongyrchol ar 12fed Gorffennaf. Dan Gadeiryddiaeth Andy Klom, Pennaeth y Comisiwn Cynrychiolaeth yng Nghymru, gwahoddwyd siaradwyr o'n dau ein partneriaid gefeillio i sôn am efeillio a'r UE.

Siaradodd Aloys Steppuhn, Landrat Märkischer Kreis yn yr Almaen am fanteision gefeillio. Dywedodd ei fod yn chwalu rhwystrau gan gynorthwyo gwledydd gynyddu eu dealltwriaeth o'i gilydd, a bod buddiannau i'r economi lleol - er enghraifft, mae pob un o'r tair tref yn rhan o brosiect INNOFIRE. Mae hwn yn cysylltu cwmnïau sy'n ymwneud â'r sector iechyd sydd, wrth gwrs, yn manteisio'r cwmnïau dan sylw a'u rhanbarthau, na fyddai wedi bod yn bosibl efallai heb y bartneriaeth.

Aloys Steppuhn, Adam Hadjuk & Andy Klom

Siaradodd Adam Hadjuk, Starosta Racibórz, am yr effaith gafodd ymuno â'r UE ar Racibórz a Gwlad Pwyl yn gyffredinol. Roedd y buddiannau ddaeth i'r amlwg yn cynnwys gwella isadeiledd Gwlad Pwyl, sydd wedi bod yn bosibl trwy gymorth ariannol yr UE. Fodd bynnag mae angen gwneud llawer mwy. Dywedodd hefyd bod twristiaeth wedi cynyddu oherwydd ymuno â'r UE yn ogystal â phrisiau isel a'r cwmnïau awyrennau rhad sydd ar gael.

Daeth y noswaith i ben gyda sesiwn holi ac ateb lle'r oedd cyfle i holi'r siaradwyr ar unrhyw bwnc. Roedd hyn yn cynnwys cwestiwn ynghylch sut oedd pobl Wrecsam yn teimlo am fewnlifiad pobl o Ddwyrain Ewrop. Roedd atebion y panel a'r gynulleidfa'n gadarnhaol a nodwyd bod llawer o bobl eu credu eu bod yn bobl weithgar.

Digwyddiadau i Ddod

Digwyddiadau i ddod a drefnwyd gan Ewrop Uniongyrchol Wrecsam:

Diwrnod Ieithoedd Ewrop 26ain Medi 2007
Ymwelwch â'r ganolfan yn Llyfrgell Wrecsam i weld arddangosfa o ffotograffau o wledydd eraill yn yr UE. Gallwch hefyd gasglu eich copi o'r Mini Ganllaw Iaith a chael gwybod mwy am yr ieithoedd sy'n cael eu siarad yn Ewrop. I gael rhagor o wybodaeth a'r manylion diweddaraf, cofiwch ffonio'r ganolfan.

Wythnos Fusnes 22ain Hydref 2007
Ymunwch â ni yng Ngwesty Rossett Hall am achlysur rhwydweithio busnes. Yn ddelfrydol i bawb mewn busnes neu newydd ddechrau, bydd y digwyddiad yn rhoi cyfle i chi gyfarfod pobl fusnes eraill, cyfnewid syniadau a hyrwyddo eich busnes. Caiff bwyd ei gynnwys. I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r ganolfan.